**CYNORTHWY-YDD CEGIN**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn ailddiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawns, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmiau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwymo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynlluniau i Ddylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £5.3m yn 2016-17, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod 2016/17, gwelodd 220,000 yn rhagor o bobl sioeau gan Theatr Clwyd mewn llefydd eraill yn y DU.

**Crynodeb o'r Swydd**

**CYNORTHWY-YDD CEGIN (achlysurol)**

Yn gyfrifol am: AMHERTHNASOL
Yn adrodd yn ôl i: Cogydd/Cogydd Sous
Cyflog: TC07 (SCP6-7) £16,394 - £16,495
Gwyliau: 23 diwrnod a gwyliau banc

Cyfnod rhybudd: 4 wythnos

**CYNORTHWY-YDD CEGIN (achlysurol)**

**Yr Adran Gweithrediadau**

Mae'r Adran Gweithrediadau yn Theatr Clwyd yn gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

**Pwrpas y Swydd**

Mae'r Cynorthwy-ydd Cegin yn gweithio i gefnogi'r tîm gweithredol i redeg y gegin yn effeithiol. Mae'r Cynorthwy-ydd Cegin yn sicrhau bod y gegin yn lân ac yn weithredol ac yn cefnogi'r cogydd a'r cogydd sous i baratoi cynhwysion.

**Prif gyfrifoldebau**

- Yn unol â gweithdrefnau a pholisïau Theatr Clwyd, cyfrannu at redeg y gweithrediadau bwyd, diod ac adwerthu yn effeithlon, sy'n cynnwys y Caffi, y Bariau a'r Lleoliadau Gwerthu/Nwyddau
- Sicrhau bod yr ardaloedd paratoi bwyd yn lân ac yn iach
- Golchi llestri ac offer cegin a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cadw'n briodol
- Didoli, cadw a dosbarthu cynhwysion
- Golchi, pilio, torri a choginio bwydydd a helpu i baratoi bwyd
- Symud sbwriel a bagiau a mynd â hwy i gynwysyddion priodol
- Trefnu i olchi unrhyw lieiniau ac ati
- Glanhau'r offer paratoi bwyd, y lloriau ac offer arall y gegin neu'r ardaloedd coginio
- Monitro stoc
- Clirio a glanhau byrddau a hefyd glanhau'r ardaloedd gwasanaethu a'r gegin yn gyffredinol
- Paratoi bwyd fel brechdanau a salad
- Paratoi ar gyfer digwyddiadau – gan gynnwys estyn dodrefn a gosod byrddau ac ati
- Helpu i gadw cofnodion diweddar a manwl gywir am stoc drwy gofnodi gwastraff ac unrhyw beth sy'n torri

**Arall**

- Cynrychioli'r sefydliad ar bob lefel a'i hybu'n bositif
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol gan y Cogydd neu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Gwybodaeth am ddyletswyddau cegin ac ystafell fwyta cyffredinol
- Gallu dilyn cyfarwyddiadau a chwblhau tasgau a ddirprwyir yn fanwl gywir ac yn effeithiol ac oddi mewn i amserlenni a nodir
- Gallu dysgu a deall rheolau hylendid bwyd sylfaenol a chanllawiau Iechyd a Diogelwch
- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau.

**Dymunol**

- Tystysgrif sylfaen mewn hylendid bwyd a gweini bwyd
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar
- Profiad o weithio mewn bwyty neu far lle mae bwyd yn cael ei gynnig
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a/neu Gymorth Cyntaf
- Trwydded yrru lawn a glân
- Diddordeb brwd ym myd y theatr a'r celfyddydau.

Rydym yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.

Oherwydd ein bod yn derbyn llawer o geisiadau, nid ydym yn gallu cysylltu â phob ymgeisydd yn unigol bob amser felly, os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.